

Gweithiwr Preswyl Plant

Cyflog: £27,254.00-£28,598.00 a lwfans cysgu i mewn

Sail: Parhaol, 37 awr yr wythnos ar sail rota

Lleoliad: Sir y Fflint

## Gweithiwr Preswyl Plant

Ydych chi'n credu mewn rhoi'r gefnogaeth orau bosibl i blant? Yn fodlon gwneud pethau'n wahanol?

Rydym ni yng Nghyngor Sir y Fflint yn credu yn y pethau hyn hefyd. Dyma pam ein bod yn buddsoddi mewn gwasanaeth preswyl newydd sbon. Rydym yn ymfalchïo yn ein huchelgais. Drwy weithio mewn partneriaeth, rydym yn anelu am y gorau ac yn chwilio am rywun gyda'r un ymroddiad i ymuno â'n tîm.

Fe fyddwch yn frwd dros sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn ein gofal yn hapus, yn ddiogel ac yn ffynnu yn eu haddysg, eu diddordebau a'u perthnasoedd. Fe fyddwch yn cydweithio â'r rheolwyr a'r tîm i ganolbwyntio ar fyd cyfan ein pobl ifanc.

Fe fyddwch yn sicrhau eich bod yn darparu gofal o safon uchel ac yn cadw at ofynion Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 (RISCA).

Fe fyddwch hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr o amrywiaeth o wasanaethau a sefydliadau amlasiantaeth.

Os ydych chi'n chwilio am swydd werth chweil a llawn boddhad, ac yn rhywun gydag agwedd gadarnhaol sy'n llawn empathi, byddem yn falch iawn o glywed gennych chi. Yn ddelfrydol, rydym yn chwilio am ymgeiswyr gyda phrofiad o weithio gyda grwpiau o bobl ddiamddiffyn a fydd yn gallu cyfrannu amrywiaeth o sgiliau perthnasol. Fodd bynnag, byddem hefyd yn falch iawn o glywed gan unigolion sy'n teimlo eu bod yn meddu ar y rhinweddau cywir i ymgymryd â'r swydd gyffrous hon.

Gan y bydd deiliad y swydd hon yn dod i gysylltiad rheolaidd â phlant diamddiffyn, bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn orfodol.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn elwa ar wyliau hael, pensiwn, gostyngiadau gan gannoedd o fanwerthwyr ledled y DU, polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd a chydbwysedd bywyd a gwaith, cyfleoedd i ddatblygu a llawer mwy.

I gael rhagor o wybodaeth a sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch â Daly 07879488300 e-bost Danielle.daly@flintshire.gov.uk

Gyda'r gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council